# Beth yw ECONOMI GYLCHOL?

Mae'r dull gweithredu arferol tuag at gynhyrchu a'r gweithgynhyrchu sy'n gysylltiedig yn llinol




Mae **'Cymryd'** yn golygu defnyddio adnoddau cyfyngedig o'r amgylchedd fel sylfaen er mwyn cynhyrchu cynhyrchion




Mae **'Gwneud'** yn aml yn defnyddio arferion aneffeithlon ac ynni niweidiol, fel tanwydd ffosil, gan achosi gwastraff




Rydym yn dymuno byrhau/lleihau yr agweddau cymryd a gwaredu trwy ostwng swm yr adnoddau naturiol a gymrir a swm y gwastraff a gynhyrchir trwy gyfuniad o **ailgylchu**, **adnewyddu** ac **ailddefnyddio**. Fel hyn, byddwn yn sicrhau bod y cynhyrchion yr ydym yn eu defnyddio yn cael eu sicrhau mewn ffordd fwy amgylcheddol.

Bob man ble y bydd modd rhoi 'gwastraff' yn ôl i mewn i'r system, bydd yr angen i gymryd a gwaredu yn llai. Er enghraifft, pe bai 25% yn fwy yn cael ei adnewyddu a 25% yn fwy yn cael ei ailddefnyddio, byddai gofyn gwaredu 50% yn llai.




Gall **technolegau** a **strategaethau** helpu amaethyddiaeth i greu economïau cylchol er mwyn manteisio i'r eithaf ar gynnyrch a gwastraff. Gall economïau cylchol fod yn gymhleth, ond dylid manteisio ar bob cyfle i ystyried lle y gallai un menter ar fferm gynnig budd i fenter arall er mwyn gwella effeithlonrwydd, yn ogystal â lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.





Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government


www.llyw.cymru/cyswlltffermio